**CYFARFOD y PWYLLGOR CYNLLUNIO** a gynhaliwyd ar ddydd Mercher 15fed Chwefror 2017 yn Siambr y Cyngor, Canolfan Gymunedol Wellington, y Rhyl ar ôl cyfarfod y Cyngor.

**YN BRESENNOL**

Y Cynghorydd Mrs W. Mullen-James (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr Mrs. E.M. Chard Mrs. J. Hughes, A. R. James, S. Ratcliffe, Miss S. Roberts, A.J. Rutherford, a T. Thomas.

Mr G. J. Nickels – Clerc y Dref

**52 YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb ar ran y Cynghorwyr Ms J. McAlpine (salwch teuluol), a Miss R. Siddall (yn sâl).

**53. CEISIADAU CYNLLUNIO**

Ystyriodd yr Aelodau y Ceisiadau Cynllunio a dderbyniwyd, fel y dangosir isod a ***PHENDERFYNWYD*** *fel y nodir arnynt nawr.*

**Nodyn 1:** Hysbysir yr Awdurdod Cynllunio Lleol bod Cyngor Tref y Rhyl eisiau datgan, lle'n briodol, bod gofyn i'r holl geisiadau a restrir isod sy'n ymwneud â lleoliadau megis swyddfeydd, siopau ac archfarchnadoedd, osod arwyddion dwyieithog sy'n adlewyrchu natur ddwyieithog ardal y Rhyl.

**Nodyn 2:** Dywedodd/Ail-ddywedodd yr Aelodau canlynol sydd hefyd yn gwasanaethu ar Gyngor Sir Ddinbych eu bod, wrth gymryd penderfyniadau ar y ceisiadau, yn gwneud hynny ar sail yr wybodaeth a oedd ger eu bron nawr ac os oedd angen ystyried y ceisiadau yng Nghyngor Sir Ddinbych, y byddant yn edrych ar y ceisiadau o'r newydd yn seiliedig ar yr wybodaeth a fydd ar gael bryd hynny, ac oherwydd hynny efallai y byddant yn dod i benderfyniad gwahanol arnynt.

Y Cynghorydd A.R. James

**Nodyn 3:** Dywedodd y Cynghorydd T. Thomas bod ganddo fuddiant personol a rhagfarnus yng nghais rhif 45/2017/0048 gan mai ef oedd yr ymgeisydd, a gadawodd y siambr yn ystod y drafodaeth a'r pleidleisio ar y mater.

| **CEISIADAU CYNLLUNIO** | |
|---|---|
| 53.1 | **LLEOLIAD Y SAFLE:** Ysgol Brigdonni Barcud a Sied Trên Tir, Rhodfa'r Dwyrain, y Rhyl.<br><br>**WARD:** Plastirion<br><br>**Rhif y CAIS:** 45/2017/1204<br><br>Newid defnydd cyn Doiled/Gaffi yn Ysgol Brigdonni Barcud a Chaffi – Newid defnydd hen adeilad Trên Tir yn siop fanwerthu, caffi/bar gwin a |

| | |
|---|---|
| | storfa yn ategol i'r ysgol syrffio – Gwaith allanol gan gynnwys gosod wal ddringo a thirweddu caled<br><br>Yr ymgeisydd yw Mr. Simon Jones o'r cyfeiriad uchod.<br><br>**PENDERFYNIAD**: Dim gwrthwynebiad |
| | |
| 53.2 | **LLEOLIAD Y SAFLE:** Marine Stores, Ernest Street, y Rhyl.<br><br>**WARD:** Cefndy<br><br>**Rhif y CAIS**: 45/2016/1255<br><br>Adeiladu 5 tŷ annedd newydd.<br><br>Yr ymgeiswyr yw Mr a Mrs Hardway, Orchard Homes Property Dev. Greenacres, Llanfairtalhaearn, Abergele.<br><br>**PENDERFYNIAD**: Dim gwrthwynebiad |
| | |
| 53.3 | **LLEOLIAD Y SAFLE:** 33 Marine Drive, y Rhyl.<br><br>**WARD:** Plastirion<br><br>**Rhif y CAIS**: 45/2017/0037<br><br>Adeiladu estyniad dau lawr i ochr tŷ annedd (ail-geisio) (Cynlluniau Diwygiedig).<br><br>Yr ymgeisydd yw Mr. T. Hindmarsh o'r cyfeiriad uchod.<br><br>**PENDERFYNIAD**: Dim gwrthwynebiad |
| | |
| 53.4 | **LLEOLIAD Y SAFLE:** 37 Marine Drive, y Rhyl.<br><br>**WARD:** Plastirion<br><br>**Rhif y CAIS**: 45/2017/0038<br><br>Adeiladu estyniad ystafell haul a rhannol newid defnydd ail lawr o fasnachol i breswyl.<br><br>Yr ymgeiswyr yw Mr. a Mrs. Thomas o'r cyfeiriad uchod.<br><br>**PENDERFYNIAD:** Dim argymhelliad oherwydd bod yr ymgeisydd yn aelod sy'n gwasanaethu ar y Cyngor Tref. |
| | |
| 53.5 | **LLEOLIAD Y SAFLE:** 1 South Drive, y Rhyl.<br><br>**WARD:** Derwen |

| | |
|---|---|
| | **Rhif y CAIS:** 45/2017/0048<br><br>Ffurfio mynedfa newydd i gerbydau ac adeiladu ffens/wal (Cais Rhannol Ôl-weithredol).<br><br>Yr ymgeiswyr yw Mr. a Mrs. Dave a Lesley Parsons o'r cyfeiriad uchod.<br><br>**PENDERFYNIAD**: Dim gwrthwynebiad i ffens/wal ond gwrthwynebu'r fynedfa newydd i gerbydau oherwydd ei fod yn agos iawn i Bryn Cwnin Road am resymau diogelwch y briffordd. |
| | |
| 53.6 | **LLEOLIAD Y SAFLE:** 79 Dyserth Road, y Rhyl.<br><br>**WARD:** Trellewelyn<br><br>**Rhif y CAIS:** 45/2017/0060<br><br>Adeiladu estyniad un llawr ac ailddatblygu'r llawr gwaelod o un fflat i dri (ail-geisio).<br><br>Yr ymgeisydd yw Gary Barker o'r un cyfeiriad.<br><br>**PENDERFYNIAD**: Dim gwrthwynebiad |
| | |
| 53.7 | **LLEOLIAD Y SAFLE:** Tir yn (rhan o ardd) 2 Elm Grove, y Rhyl.<br><br>**WARD:** Plastirion<br><br>**Rhif y CAIS:** 45/2017/0076<br><br>Datblygu 0.03ha o dir trwy adeiladu tŷ annedd (cais amlinell gan gynnwys mynediad).<br><br>Yr ymgeisydd yw Mrs. Jackie Hutchison o'r cyfeiriad uchod.<br><br>**PENDERFYNIAD**: Dim gwrthwynebiad |

**54. TERFYNU'R CYFARFOD**

Gan nad oedd unrhyw fusnes pellach, datganodd y Cadeirydd bod y Cyfarfod wedi dod i ben.

Llofnod: ……………..…………

Dyddiad: ………………….........